**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 16-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 7 Tachwedd 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Rory O’Sullivan (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Mike Dunn (eitemau 2 a 3) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Gareth Jones (eitem 2) | Yr Is-adran Rheoli CAP |
| Alan Starkey (eitem 3) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Brian Pawson (eitem 3) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Nick Batey (eitem 4) | Yr Uned Strategaeth TGCh |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jocelyn Davies. Cymerwyd ei lle gan Rhodri Glyn Thomas.

1.2 Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers fod iddo fudd fel ffermwr, a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr gan Elin Jones yn cynnig;

- y dylai'r pwyllgor ystyried cynnal ymchwiliad i glwy'r traed a'r genau, ac
- y dylai'r pwyllgor ofyn am welliannau i'r Mesur Iechyd Anifeiliaid er mwyn sicrhau bod pwerau iechyd anifeiliaid yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad.

1.4 Dywedodd y gellid trafod y materion hyn dan y rhannau perthnasol o adroddiad y Gweinidog. Hysbysodd y pwyllgor hefyd o'i fwriad i ddefnyddio'r eitem hon yn y dyfodol er mwyn i'r Cadeirydd allu codi unrhyw faterion penodol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 16-01(p1)
2.1 Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor fod Pwyllgor Milfeddygol Sefydlog y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi rhywfaint o gymeradwyaeth i'r posibilrwydd o ailddechrau allforio cig oen o Brydain. Byddai amodau llym yn dal i fod yn berthnasol o safbwynt olrheinadwyedd a gwaharddiadau symud.

2.2 Dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw sail i'r straeon ei fod yn bwriadu dod â'r system marchnadoedd da byw i ben. Yr oedd y marchnadoedd ar gau ar hyn o bryd fel rhan o'r trefniadau i reoli clwy'r traed a'r genau. Nid oedd yn debygol y byddent yn ailagor hyd ran gyntaf y Flwyddyn Newydd, a byddai marchnadoedd gwartheg yn ailagor cyn y rhai defaid. Dywedodd ei fod yn gobeithio y gellid defnyddio arbenigedd arwerthwyr er budd amaethyddiaeth yng Nghymru.

2.3 Heriwyd safiad y Gweinidog ar farchnadoedd da byw. Mewn ateb a roddwyd ganddo yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Hydref yr oedd wedi dweud ei bod yn anodd i ffermwyr gael pris teg trwy arwerthiant. Honnwyd mai hyn oedd wedi arwain at y pryderon presennol. Dywedodd y Gweinidog fod y system bresennol o farchnadoedd ac arwerthiannau da byw yn cynnwys llawer mwy o werthwyr nag o brynwyr ac nad oedd felly'n cynnig marchnad wirioneddol. Yr oedd angen i'r system newid ond nid oedd unrhyw fwriad i gael gwared o farchnadoedd. Yr oedd ar ffermwyr angen mwy o ran yn y broses a'r hawl i ddewis sut yr oedd eu stoc yn cael eu gwerthu i'r gadwyn fwyd. Yr oedd yn cydnabod bod gan farchnadoedd da byw ran hanfodol i'w chwarae wrth werthu anifeiliaid stôr a hyrddod. Dywedodd y Gweinidog fod trefniadau wedi eu gwneud iddo gwrdd â chynrychiolwyr yr arwerthwyr yn fuan a'i fod yn gobeithio y byddent yn cydweithio ag ef er mwyn gwella amaethyddiaeth yng Nghymru.

2.4 Gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd y newyddion diweddaraf ynghylch y gwaharddiad ar symud anifeiliaid am 21 diwrnod. Eglurodd fod dwy agwedd ar y pwnc. Yr oedd y gwaharddiad ar symud anifeiliaid am 21 diwrnod wedi ei bennu yn unol â'r camau i reoli clwy'r traed a'r genau. Nid oedd unrhyw gynlluniau eto i godi'r gwaharddiad hwn. Yn gynharach eleni, yr oedd yr Adran Amaethyddiaeth wedi ymgynghori ynghylch cynlluniau i wahardd symud anifeiliaid ac yr oedd un o'r dewisiadau'n awgrymu gwaharddiad am 21 diwrnod lle'r oedd anifeiliaid yn cael eu cludo i fferm. Nid

oedd unrhyw gamau wedi eu cymryd ond byddai mwy o ymgynghori'n digwydd maes o law.

2.5 Gwahoddodd y Cadeirydd Elin Jones i egluro pam ei bod yn gofyn am ymchwiliad cyhoeddus i glwy'r traed a'r genau yng Nghymru. Dywedodd fod y cais wedi ei wneud gan ei bod yn ymddangos bod y Llywodraeth yn Llundain ac yng Nghaerdydd yn gyndyn o ganiatáu ymchwiliad llawn. Yn niffyg ymchwiliad llawn dylai'r pwyllgor ystyried y pwerau a oedd ganddo i sefydlu ymchwiliad. Dau batrwm posibl y gellid eu dilyn oedd yr ymchwiliad biff ar yr asgwrn ac ymchwiliad Nantygwyddon. Dylai'r ymchwiliad ystyried sut y rheolwyd y clwy a pha effaith a gafodd ar gymunedau gwledig.

2.6 Dywedodd y Cadeirydd fod sawl cais am ymchwiliad wedi ei wneud ond nad oedd y mater yn un syml. Awgrymodd y dylid paratoi papur a fyddai'n nodi pwerau'r Pwyllgor mewn perthynas â chynnal ymchwiliad, y dewisiadau a oedd yn agored iddo a goblygiadau ymchwiliad o'r fath. Dilynwyd hyn â thrafodaeth a gwnaethpwyd y pwyntiau isod:

- yn niffyg ymchwiliad llawn yr oedd yn bwysig bod y pwyllgor yn ysgwyddo cyfrifoldeb;
- yr oedd y Gweinidog wedi nodi ym Mehefin bod angen asesiad fel bod modd dysgu gwersi'n fuan. Yr oedd cyfle hefyd i'r Cynulliad gydlynu ymateb Cymru i'r tri ymchwiliad a oedd wedi eu cyhoeddi'n barod;
- mynegwyd y farn mai ymchwiliad cyhoeddus llawn drwy'r Deyrnas Unedig fyddai'r dewis gorau. Yn niffyg hynny dylai'r Cynulliad wneud ei ymchwiliad ei hun er nad oedd gan y pwyllgor lawer o adnoddau.

2.7 Dywedodd y Gweinidog mai ychydig iawn o bwerau cyfreithiol oedd gan y Cynulliad mewn perthynas â chlwy'r traed a'r genau a'i bod yn bosibl na ellid gweithredu unrhyw argymhellion a fyddai'n deillio o ymchwiliad. Nid oedd yn debygol y byddai Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn cydweithredu ag ymchwiliad yng Nghymru gan mai eu blaenoriaeth hwy fyddai ymateb i'r ymchwiliadau sydd wedi eu cyhoeddi'n barod. Ymchwiliad Anderson oedd yr un mwyaf perthnasol a byddai'n dod i Gymru i gasglu tystiolaeth. Byddai'r aelodau, ynghyd â grwpiau perthnasol sydd â diddordeb, yn cael cyfle i gyfrannu tuag ato.

2.8 Cytunodd y pwyllgor y dylid paratoi papur yn nodi pwerau'r Pwyllgor, y dewisiadau a oedd yn agored iddo o safbwynt cynnal ymchwiliad i glwy'r traed a'r genau a goblygiadau ymchwiliad o'r fath.

2.9 Yr oedd y llythyr at y Cadeirydd hefyd yn cynnig, oherwydd y gefnogaeth unfrydol i'r syniad o drosglwyddo pwerau iechyd anifeiliaid i'r Cynulliad, y dylai'r pwyllgor ofyn am newidiadau i'r Mesur Iechyd Anifeiliaid (Newidiad) er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiad yn dod i rym. Nodwyd y gellid sicrhau'r trosglwyddiad trwy orchymyn trosglwyddo swyddogaethau ond teimlid y byddai'r cyfleoedd a oedd yn cael eu darparu gan y Mesur yn sicrhau'r pwerau i'r Cynulliad yn gynt. Awgrymwyd y dylid gofyn am farn gyfreithiol gan Swyddfa'r Llywydd ynghylch hyfywedd gwneud y gwelliannau priodol i'r Mesur.

2.10 Dywedodd y Gweinidog ei fod yn awyddus i weld pwerau iechyd anifeiliaid yn cael eu

trosglwyddo i’r Cynulliad ond ei bod yn bwysig bod yr adnoddau gweithredol a chyllidol ar gyfer delio gyda’r materion hyn yn cael eu trosglwyddo gyda’r pwerau. Gobeithiai y byddai modd sicrhau’r naill a’r llall erbyn 2003. Nid oedd yn briodol defnyddio’r Mesur i drosglwyddo’r pwerau i’r Cynulliad gan mai darpariaeth frys ydoedd, wedi ei chynllunio yn unig er mwyn cryfhau pwerau cyfreithiol a oedd yn ymwneud ag argyfwng presennol clwy’r traed a’r genau a phwerau newydd yn ymwneud â dileu clefyd y crafu. Awgrymai cyngor cyfreithiol y byddai gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau’n cyflawni amcanion y Cynulliad. Gallai Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Newydd ddarparu dewis amgen a dull mwy ymarferol o weithredu.

2.11 Cytunwyd i ofyn am farn gyfreithiol ymgynghorydd cyfreithiol Swyddfa’r Llywydd ynghylch hyfywedd gwneud y gwelliannau priodol i’r Mesur.

2.12 Holwyd y Gweinidog beth oedd y sefyllfa gyda hela er mwyn rheoli fermin. Yr oedd ffermwyr wedi cael mwy o golledion oherwydd llwynogod yn ystod y gwaharddiad gwirfoddol. Caniateid cerdded a marchogaeth yng nghefn gwlad erbyn hyn ac yr oedd amheuon ynghylch y cymhellion dros barhau â’r gwaharddiad. Dywedodd y Gweinidog mai Adran yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol am y mater a’i fod yn disgwyl ymateb.

2.13 Codwyd pwnc rhifau adnabod ar gyfer defaid. Nododd y pwyllgor fod Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr 2001 yn nodi y dylai pob anifail a anwyd ar ôl 1 Ionawr 2001, a’r rhai hynny a symudwyd o’r fan lle cawsant eu magu, fod â rhif a thag adnabod. Yr oedd hyn yn bodloni un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd a sefydlwyd yn 1992.

2.14 Nodwyd bod Partneriaeth Wledig Cymru wedi cael cyflwyniad gan Ganolfan Gydweithredol Cymru ar warchod gwasanaethau adwerthu gwledig. Gofynnwyd i’r Gweinidog am fwy o fanylion. Dywedodd mai’r neges bennaf oedd sut y gall cyfuno mentrau masnachol dan yr un to, a thrwy hynny eu gwneud yn fwy hyfyw, fod o fudd i gymunedau gwledig. Ychwanegodd, mewn ymateb i gwestiwn, y gellid darparu undebau credyd fel rhan o’r gwasanaethau hyn ac y byddai’n hoffi gweld y syniad yn cael ei ddatblygu.

2.15 Holwyd y Gweinidog sut y gellid adeiladu ar y cynnydd a oedd wedi ei wneud a chael cynnyrch Cymreig ar silffoedd yr archfarchnadoedd, fel yn rhaglen datblygu cyflenwyr yr Awdurdod Datblygu/ Sainsbury. Dywedodd y Gweinidog fod mwy a mwy o archfarchnadoedd yn dod i stocio bwydydd rhanbarthol. Yr oedd ansawdd yn ffactor pwysicach na phris i gwsmeriaid sylfaenol llawer o’r cadwyni archfarchnadoedd.

2.16 Codwyd pwnc rhwydo eogiaid yn rhan uchaf aber afon Hafren. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ymateb pe bai’r Aelod yn ysgrifennu ato gyda manylion.

2.17 Gofynnwyd i’r Gweinidog ddarparu gwybodaeth ynghylch yr arian a oedd yn cael ei wario drwy Gynllun Adfywio Gwledig Cyswllt Ffermio a nifer y ffermwyr a oedd wedi elwa o’r cynllun. Holwyd y Gweinidog hefyd a oedd ffurflenni ar gael i wneud cais am grant. Dywedodd wrth y pwyllgor nad oedd

llawer o amser ers pan sefydlwyd Cyswllt Ffermio. Yr oedd adolygiadau'n cael eu gwneud ond yr oedd yn rhy fuan i grantiau cyfalaf fod wedi eu talu. Nododd y Pwyllgor fod dros 3,000 o ymholiadau wedi eu derbyn ac y gellid darparu manylion ynghylch yr arian a oedd ar gael ar gyfer gwahanol agweddau ar gynllun Cyswllt Ffermio. Dywedodd y Gweinidog fod trefniadau arolygu'n cael eu sefydlu ac y byddai'n ymdrin â hyn yn ei adroddiad nesaf i'r pwyllgor.

2.18 Yr oedd problem bosibl gyda lles yn amlygu ei hun mewn ardaloedd a oedd yn dal i fod yn ddarostyngedig i reolau llym ynghylch symud anifeiliaid oherwydd cyfyngiadau clwy'r traed a'r genau. Yr oedd ^wyn a oedd yn rhy drwm ar gyfer y cynllun difa ^wyn ysgafn, ond nad oeddent yn barod ar gyfer eu lladd, yn bwyta porthiant yr oedd ei angen ar gyfer mamogiaid. Yr oedd ar ffermwyr mewn ardaloedd lle'r oedd cyfyngiadau angen sicrwydd y byddent yn cael sylw'n gynt dan y Cynllun Difa ar sail Lles. Gwahoddwyd yr Aelod i ysgrifennu at y Gweinidog gyda manylion am achosion arbennig a fyddai wedyn yn cael eu hystyried.

2.19 Yn y cyfarfod blaenorol gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd ei farn ynghylch y cyfarwyddebau labelu ar gyfer organebau wedi eu haddasu'n enetig a oedd yn cael eu hystyried gan Senedd Ewrop. Dywedodd y Gweinidog fod y cyfarwyddebau labelu wedi eu trafod yn y Grwp Strategaeth Organebau a Addaswyd yn Enetig, a bod y Grwp o'r farn y dylai labelu fod mor agored ac mor fanwl ag sy'n bosibl. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hoffi clywed barn gwladwriaethau Ewropeaidd eraill yn y seminar a oedd i'w chynnal ar 20 Tachwedd. Bwriadai ysgrifennu at y Grwp Strategaeth hefyd i gadarnhau'r farn y dylid dirwyn y Grwp i ben a sefydlu'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig fel y fforwm ar gyfer materion yn ymwneud ag organebau wedi eu haddasu'n enetig.

*Pwyntiau gweithredu*

2.20 Papur i'w baratoi er mwyn nodi pwerau'r Pwyllgor, y dewisiadau sy'n agored iddo o safbwynt cynnal ymchwiliad i glwy'r traed a'r genau yng Nghymru a goblygiadau ymchwiliad o'r fath - **Ysgrifenyddiaeth** (gan ymgynghori â'r Adran Amaethyddiaeth ac ymgynghorwyr cyfreithiol).

2.21 Gofyn am farn gyfreithiol gan ymgynghorydd cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd ynghylch hyfywedd gwelliant i'r Mesur Iechyd Anifeiliaid a fyddai'n arwain at drosglwyddo swyddogaethau iechyd anifeiliaid i'r Cynulliad - **Ysgrifenyddiaeth**.

2.22 Nodyn ar y trefniadau arolygu a'r arian sydd ar gael ar gyfer Cyswllt Ffermio i'w ddarparu yn adroddiad y Gweinidog ar gyfer y cyfarfod nesaf - **Gweinidog** (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio)

2.23 Nodyn ar y gwariant hyd yn hyn ar y Cynllun Adfywio Gwledig i'w ddarparu yn adroddiad y Gweinidog ar gyfer y cyfarfod nesaf - **Gweinidog** (Is-adran Polisi Gwledig)

**Eitem 3: Adroddiadau Cloriannu Tir Gofal** - ARD 16-01(p2)

3.1 Dywedodd Mick Bates fod iddo fudd gan ei fod yn ymwneud â chynllun amaeth-amgylcheddol o'r

enw Pontpren.

3.2 Dywedodd y Gweinidog fod yr adroddiadau cloriannu’n cynnig cyfle i addasu’r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion y Cynulliad o safbwynt y math o ffermydd a oedd yn cael eu cefnogi. Yr oedd nifer o ddewisiadau ar gyfer newidiadau wedi eu cyflwyno i’r pwyllgor yng Ngorffennaf. Yr oedd angen gwneud penderfyniadau yn awr ynghylch y ffordd ymlaen. Byddai angen i’r Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyo newidiadau mawr i’r cynllun.

3.3 Holwyd y Gweinidog sut y byddai ceisiadau gan grwpiau yn gweithio. Nododd y pwyllgor y byddai’r cyfleustra hwn yn caniatáu i geisiadau gan grwp o ffermwyr fynd trwy’r broses gyda’i gilydd. Byddent yn cael cymeradwyaeth ar y cyd a fyddai’n eu galluogi i gydweithio’n agosach, i ymgeisio am grantiau eraill a threfnu gwaith fel grwp. Nid oedd penderfyniad wedi ei wneud eto ynghylch yr union drefniadau.

3.4 Mynegwyd y farn bod Tir Gofal yn gynllun elitaidd. Yr oedd angen ystyried ffyrdd o gynyddu nifer y ffermwyr a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun. Yr oedd cynlluniau ar gyfer rhan o fferm yn un dewis. Dywedodd y Gweinidog y gallai’r dewis hwn fod yn ddefnyddiol a bod y mater yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cynllun y fferm gyfan oedd yn cael ei ystyried fel y patrwm gorau ar hyn o bryd.

3.5 Mynegwyd pryderon ynghylch yr anawsterau yr oedd rhai ffermwyr yn eu cael wrth drosglwyddo i’r cynllun Tir Gofal o gynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill. Yr oedd angen newidiadau i arferion ffermio yn aml. Yn yr achosion hyn dylid pwyso a mesur y manteision amgylcheddol ochr yn ochr â’r angen i gynhyrchu bwyd.

3.6 Holwyd y Gweinidog beth oedd yn cael ei wneud er mwyn gallu croeswirio ceisiadau gyda gwybodaeth IACS. Nododd y pwyllgor y dylai’r wybodaeth ddigidol a fyddai ar gael ar ôl i’r prosiect Jig-saw gael ei gwblhau fod o gymorth.

3.7 Awgrymwyd y dylid annog busnesau i hyrwyddo cynnyrch cynlluniau amgylcheddol er mwyn gwella’u hyfywedd tymor hir. Teimlai’r Gweinidog fod hwn yn syniad diddorol ond bod angen bod yn ofalus. Pe bai Tir Gofal yn cael ei weld yn rhoi mantais yn y farchnad byddai cwynion yn cael eu gwneud pe na bai ffermwyr yn gallu cael mynediad i’r farchnad.

3.8 Nodwyd bod canran y ceisiadau llwyddiannus gan ffermydd llaeth, a oedd yn isel yn barod, wedi gostwng er y rownd flaenorol. Gofynnwyd i’r Gweinidog a allai egluro hyn. Nododd y pwyllgor fod pecynnau gwneud cais, er mwyn helpu ffermwyr, yn cynnwys enghreifftiau o achosion nodweddiadol ar gyfer pob math o fferm. Efallai fod angen i ffermydd llaeth wneud mwy o newidiadau na mathau eraill o ffermydd er mwyn cael sgôr dros 100.

3.9 Dim ond 9.2% o’r ceisiadau llwyddiannus oedd o Dde Cymru. Gan nad oedd llawer o adnoddau holwyd y Gweinidog a ellid targedu’r arian a oedd ar gael tuag at ffermydd tir uchel yn Ne Cymru. Dywedodd y Gweinidog fod llai o ffermydd yn y de a bod hynny’n effeithio ar yr argraff a roddid gan y

canrannau a ddangosid.

3.10 Holwyd y Gweinidog pa ffactor oedd yn cyfyngu ar y nifer a allai ymuno â’r cynllun, pa un ai’r gyllideb ynteu’r galw. Dywedodd fod y cynllun yn boblogaidd a’i bod yn anodd cwrdd â’r galw. Fodd bynnag, yr oedd y gyllideb yn cael ei chynyddu.

3.11 Yn y rownd bresennol yr oedd 1,107 o geisiadau cymwys wedi derbyn sgôr uwchben y trothwy, ac yn cael eu prosesu. Holwyd y Gweinidog faint o amser y byddai’n ei gymryd, o ystyried maint y gyllideb, i ddelio gyda’r ceisiadau hyn. Nododd y pwyllgor fod nifer o ffactorau’n effeithio ar ba mor gyflym y gellid delio gyda cheisiadau. Er enghraifft, yr oedd cyfartaledd cost cytundebau’n disgyn ac nid oedd yn glir eto beth fyddai’r swm ar gyfer y drydedd rownd. Disgwylid y byddai rhwng 500 a 600 o ymweliadau a rhwng 300 a 400 o gytundebau yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn nesaf.

3.12 Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n hoffi gweld y cynllun yn cael ei gynnig i unrhyw reolwr tir yng Nghymru a oedd yn dymuno gwneud cais. Pe gellid gwneud hynny, efallai y byddai agweddau tuag at fodwleiddio yn wahanol a modwleiddio yn ei farn ef oedd yr unig ddewis realistig er mwyn cael yr arian yr oedd ei angen ar gyfer cyflwyno manteision amgylcheddol o’r radd flaenaf trwy Gymru. Ni allai cyllid presennol y cynllun ddarparu’r manteision economaidd ac amgylcheddol disgwyliedig, ac oni ellid sicrhau cynnydd sylweddol yn y gyllideb efallai y byddai dadl dros gyfyngu’r cynllun i rannau o Gymru.

3.13 Awgrymwyd y gellid cynyddu’r arian ar gyfer Tir Gofal yn sylweddol pe na bai llywodraeth y DU yn ystyried arian Ewropeaidd fel arian craidd. Pe bai arian Ewropeaidd yn cael eu trin fel arian ychwanegol, gellid rhyddhau 50% i 75% o arian ychwanegol. Dywedodd y Gweinidog fod hwn yn fater i lywodraeth y DU ac yr oedd yn gorfod ystyried effaith cytundeb Fontainbleau wrth ffurfio safbwynt.

**Eitem 4: Adolygiad o TGCh gwledig**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Nick Batey i’r cyfarfod. Gwnaeth Nick Batey gyflwyniad byr y gellir ei weld drwy glicio yma.

4.2 Dywedodd y Cadeirydd fod defnydd dwyieithog o TGCh yn fwyfwy pwysig fel yr oedd mwy a mwy o bobl ifanc yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau hyn. Nododd y pwyllgor fod gan Gymru Ar-lein nifer o bolisïau er mwyn hyrwyddo defnydd cyfartal o’r Gymraeg. Yr oedd y rhain yn cynnwys datblygu fersiwn Cymraeg o Drwydded Yrru’r Cyfrifiadur Ewropeaidd. Yr oedd y BBC yn cynhyrchu deunydd ar gyfer y Cwricwlwm Digidol yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ac yr oedd ymdrech yn cael ei gwneud i annog cynhyrchu meddalwedd Cymraeg.

4.3 Yn ôl BT yr oedd yr isadeiledd ar gyfer darparu TGCh i Gymru wledig wedi ei sefydlu’n barod. Y gagendor yr oedd angen ei bontio oedd rhwng cyfnewidfeydd ffôn a defnyddwyr unigol. A oedd hwn yn bwnc y dylai’r pwyllgor roi sylw iddo? Dywedodd Nick Batey fod BT a darparwyr eraill yn cytuno mai

dyma'r sefyllfa. Fodd bynnag mae darparwyr o'r farn ar hyn o bryd nad oes digon o alw mewn ardaloedd gwledig am fuddsoddiad pellach. Efallai y byddai'r pwyllgor yn hoffi ystyried sut y gellid ysgogi'r galw.

4.4 Yr oedd buddsoddiad newydd mewn gwasanaethau band llydan wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar. Holwyd Nick Batey a oedd systemau band llydan ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer ysgolion a'r sector cyhoeddus? Dywedodd Nick Batey mai'r buddsoddiad a oedd wedi ei gyhoeddi er mwyn cefnogi'r rhwydwaith dysgu gydol oes oedd y cam cyntaf tuag at ddatblygu strwythur band llydan ehangach ar gyfer y sector cyhoeddus. Y bwriad oedd darparu cyswllt a allai gynnwys, er enghraifft, y ganolfan feddygol leol, llyfrgell ac ysgol. Byddai hyn yn helpu i annog galw yn y gymuned ac yn ysgogi mwy o fuddsoddi. Os byddai digon o gynhwysedd yn cael ei ddarparu byddai defnyddwyr unigol yn y gymuned yn gallu gwneud defnydd o wasanaethau band llydan.

4.5 Holwyd Nick Batey pa un ai systemau gwifrau copr ynteu systemau micro-don oedd y dewis gorau er mwyn darparu gwasanaethau band llydan yng Nghymru wledig. Dywedodd fod gan y ddau fath ran i'w chwarae. Nid y system a ddefnyddid oedd yn bwysig ond beth oedd y ffordd orau o ddarparu'r gwasanaeth, faint oedd y gost ac a ellid diweddaru'r system yn hawdd yn y dyfodol.

4.6 Yr oedd angen i bobl ddeall y manteision y gallai gwasanaethau band llydan eu cynnig a holwyd Nick Batey a allai clybiau e-fusnes fod yn gyfrwng defnyddiol i ddibenion hyrwyddo. Dywedodd ei bod yn bwysig gwneud pobl yn ymwybodol o'r manteision posibl a byddai gan glybiau e-fusnes ran i'w chwarae. Cytunodd i gynnig mwy o wybodaeth ynghylch yr arian a fyddai ar gael er mwyn ysgogi'r galw drwy fentrau fel clybiau e-fusnes.

4.7 Holwyd Nick Batey a oedd mynediad cyfartal i wasanaethau band llydan trwy Gymru. Dywedodd nad oedd. Mewn rhai ardaloedd yr oedd yn anodd i ddefnyddwyr domestig gael cyfle i ddefnyddio gwasanaethau ac yr oedd busnesau a oedd angen mynediad cynhwysedd sylweddol yn aml yn gweld bod y gost yn rhy uchel. Yr oedd angen rhoi sylw i'r costau ac ystyried pa mor rhwydd yw cael gafael ar wasanaethau, ond yr oedd y costau uwch i fusnesau yng Nghymru wledig yn cael eu gwrthbwyso i ryw raddau gan fod costau cyffredinol eraill yn is. Y ffordd orau o sicrhau costau rhesymol oedd trwy gynhyrchu digon o alw er mwyn ysgogi darpariaeth, ac yr oedd angen ymyrryd o safbwynt y cyflenwad a'r galw.

4.8 Nid oedd unrhyw ddarpariaeth band llydan mewn rhai rhannau o Ogledd Cymru. Holwyd Nick Batey a ddylai'r llywodraeth fynnu math arbennig o ddarpariaeth a faint o amser y byddai'n ei gymryd i gael gwasanaethau i bob cymuned. Nododd nad oedd rhai materion telathrebu wedi eu dirprwyo i'r Cynulliad. Yr oedd y Cynulliad yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu rhwydwaith dysgu gydol oes a fyddai'n gosod cysylltiadau band llydan mewn ysgolion pentref a chyfleusterau cyhoeddus eraill. Byddai'r awydd i ddefnyddio'r gwasanaethau'n ymledu i'r gymuned ac yn helpu i greu galw. Os llwyddid i gynyddu'r galw o du'r cyhoedd, ei farn bersonol ef oedd y dylai hynny gael effaith sylweddol ymhen tair blynedd ac y byddai'n bosibl cynnwys hyd at 90% ymhen 5 mlynedd, er bod llawer yn dibynnu ar y mathau o ddatblygiadau technolegol a oedd yn cael eu gwneud.

4.9 Holwyd Nick Batey pa fath o ddarpariaeth band llydan fyddai’n addas i ysgolion gwledig ac a fyddai busnesau lleol yn gallu cael mynediad i wasanaethau band llydan trwy’r cysylltiadau hyn. Mater i’r awdurdodau lleol benderfynu yn ei gylch trwy eu polisïau prynu oedd y math o ddarpariaeth ond yr oedd nifer o ddewisiadau. Os byddai digon o gynhwysedd yn cael ei ddarparu i’r ardal gallai busnesau lleol hefyd elwa o fynediad am bris y gellid ei fforddio.

4.10 Yr oedd Telemedicine yn cynnig cyfle i bobl mewn ardaloedd gwledig gael cyngor meddygol arbenigol. Holwyd Nick Batey sut y gellid hyrwyddo hyn. Yr oedd gwasanaethau yn y broses o gael eu hanfon i ganolfannau meddygon teulu a byddai hyn oll yn cael ei ystyried yn rhan o rwydweithio sector cyhoeddus.

4.11 Holwyd Nick Batey a ddylai’r pwyllgor ganolbwyntio ar ddarparu isadeiledd a thechnoleg neu ar wella lefelau sgiliau. Dywedodd mai’r ateb i’r broblem oedd ysgogi’r galw trwy ddangos y manteision sydd gan wasanaethau band llydan i’w cynnig.

4.12 Diolchodd y Cadeirydd i Nick Batey am ei gyfraniad a dywedodd y byddai’n gallu rhoi mwy o gyngor i’r pwyllgor yn ystod yr adolygiad.

*Pwyntiau gweithredu*

4.13 Nodyn i’w ddarparu ynghylch yr arian sydd ar gael i hybu ymwybyddiaeth o botensial gwasanaethau band llydan trwy fentrau fel clybiau e-fusnes - **Nick Batey**

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 15-01(min)
5.1 Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref.

**Ysgrifenyddiaeth** **Tachwedd 2001**